Strwythur Aseiniad ECAD5011C

Cyflwyniad – rhowch drosolwg o nod eich aseiniad yn y paragraff agoriadol. Cyflwynwch y disgybl / disgyblion gan roi'r cyd-destun.

(*Disgybl/grŵp o ddisgyblion – dewiswch ddisgybl neu grŵp penodol o ddisgyblion o CA2 (7-11 oed). Gall y rhain fod yn ddisgyblion go iawn neu ddychmygol. Os ydych chi'n defnyddio disgyblion go iawn, sicrhewch anhysbysrwydd bob amser iddyn nhw a'u hysgol. Cydnabyddwch hyn a rhowch ffug-enwau iddynt e.e. Jac , Ysgol Pant y Buarth a.y.b. Rhannwch gyd-destun eich disgybl / disgyblion yn fanwl gyda'r darllenydd, e.e. oedran, rhyw, lefel datblygiad ac ati ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio'r proffiliau disgyblion a ddarparwyd yn ystod y modiwl (Idris ac Ella) fel model ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth yma).*

Rhowch drosolwg cryno o'r ymyrraeth a ddewisoch, eglurwch beth yw a pham y gwnaethoch ei ddewis - canolbwyntiwch ar sgiliau / gwybodaeth / dealltwriaeth ac ati.

(Tua 400 gair)

Prif ran - ymhelaethu ar sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu o fewn yr agwedd a ddewiswyd gennych e.e. ymddygiad, lles, llythrennedd ac ati a chysylltu â theori.

(Ymyrraeth – dewiswch ymyrraeth i dargedu thema benodol e.e. llythrennedd, rhifedd, lles, ymddygiad, sgiliau cymdeithasol, emosiynol, corfforol, agwedd o ADY ac ati. Gall hyn fod yn ymyrraeth sydd eisoes yn bodoli e.e. grŵp maethu, straeon cymdeithasol, Tric a Chlic, therapi Lego, Pyramid, ymwybyddiaeth ofalgar, meddylgarwch ac ati, neu ymyrraeth rydych chi wedi'i chreu e.e. clwb coginio ar ôl ysgol / clwb gymnasteg ac ati. Dangoswch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r ymyrraeth a ddewiswyd ac esboniwch beth yw a sut y byddech yn ei weithredu o fewn y dosbarth / ysgol e.e. pryd, ble a phwy fyddai'n gyfrifol? Ystyriwch a oes unrhyw gysylltiadau rhwng yr ymyrraeth a rhai o'r cysyniadau damcaniaethol a archwiliwyd.)

Ymhelaethwch ar yr ymyrraeth a ddewisoch - eglurwch sut y byddech chi'n ei weithredu a phwy fyddai'n gyfrifol am hynny, e.e. athro / cynorthwyydd cymorth / rhieni / asiantaethau allanol ac ati. Yna gwerthuswch eich ymyrraeth, gan ystyried ei gryfderau a'i gyfyngiadau posib.

(Adfyfyrio'n feirniadol - trafodwch pam y gwnaethoch ddewis yr ymyrraeth ar gyfer eich disgybl / grŵp penodol o ddisgyblion ac yna ei werthuso, gan drafod ei gryfderau a'r heriau posibl e.e. diffyg adnoddau, cost, amser ac ati. Cyfeiriwch at brofiadau personol e.e. PAP 2, teulu, ffrindiau a.y.b. ac unrhyw brofiadau proffesiynol eraill NEU trwy gyfeirio at adroddiadau thematig neu arfer orau Estyn (https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella) er mwyn cefnogi eich trafodaeth.)

Strwythur Aseiniad ECAD5011C

Ystyriwch y goblygiadau ar gyfer addysgu a dysgu. Cefnogwch hyn gyda thystiolaeth os yn bosibl. Ceisiwch osgoi defnyddio deunydd gwefan sy'n hyrwyddo adnoddau penodol oherwydd mae'n bosib bod rhain wedi eu anelu at ddibenion masnachol. Cadwch ffocws glir ar eich disgybl/ion drwy'r aseiniad. **(Tua 1950 gair)**
Diweddglo – crynhowch eich trafodaeth at ei gilydd a nodwch y camau nesaf i'w hystyried ar gyfer y disgybl/ion a'r staff, e.e. a oes budd o gyflwyno'r ymyrraeth hon ar draws yr ysgol gyfan? A ellid cynnwys rhieni? A oes angen hyfforddiant pellach? Unrhyw beth arall perthnasol. **(Tua 400 gair)**

Materion cyflwyno

i. Defnyddiwch gyfeiriadau at ddarllen ac ymchwil cefndirol fel sail i'ch trafodaeth a dilynwch Lawlyfr Canllawiau Cyfeirnodi Harvard y Brifysgol ar gyfer hyn (Llawlyfrau Cyfeirnodi - Gwasanaethau Digidol | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant).

ii. Defnyddiwch y templed cyflwyno aseiniad (ar gael ar Moodle - gweler canllawiau ar https://www.youtube.com/watch?v=qCr9vFmqHFU gan nodi eich targedau o'r aseiniad blaenorol a sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r rhain o fewn yr aseiniad hwn.

iii. Ysgrifennwch mewn arddull academaidd, ffurfiol heblaw pan fyddwch yn adfyfyrio ar brofiadau, lle mae'n dderbyniol i ddefnyddio person cyntaf y ferf.

iv. Bydd yr aseiniad yn 'llifo'n' well heb is-deitlau ond defnyddiwch nifer fechan os ydy hynny'n eich helpu i drefnu'r aseiniad yn well.

Sut allaf wella fy marciau?

i. Darllenwch y meini prawf asesu generig ar gyfer lefel 5 (ar gael ar ddiwedd y fanyleb asesu ar Moodle). Edrychwch ym mha golofn mae eich marciau yn gyffredinol ar gyfer aseiniadau lefel 5. Yna darllenwch y colofnau i'r dde er mwyn gweld beth yw'r disgwyliadau ar gyfer y dosbarthiadau uwch. Ceisiwch gynnwys yr elfennau hyn o fewn eich aseiniad.

ii. Ail-ddarllenwch canllawiau'r fanyleb asesu ar Moodle ac yn enwedig tudalennau 2, 3 & 4 a'r adrannau 'canllawiau penodol i'r asesiad hwn'. Gwnewch yn siŵr fod yr holl

elfennau hyn wedi'u cynnwys yn eich aseiniad gan mai dyma'r meini prawf a ddefnyddir gan y tîm marcio wrth farcio'ch gwaith.

Cefnogaeth bellach

- E-bostiwch m.bowen@pcydds.ac.uk